



## Gwybodaeth mis Hydref 2021



### Nofio

Bydd gwersi nofio yn dechrau dydd Gwener 8fed o Hydref ar gyfer blwyddyn 5 a 6 dosbarth Mr Rhydian Jones.

### Parcio

Rydym wedi cael nifer o breswylwyr ar Lon Bryn Coch uchaf yn cwyno fod pobl yn parcio o flaen eu dreif. A fyddech cystal a sicrhau nad ydych yn parcio o flaen mynedfa eraill. Diolch yn fawr.



### *Mae Miss Ann Joseph yn dweud*



Diolch yn fawr i Mrs Delyth Barker sydd yn gorffen ei swydd fel cynorthwydd gweinyddol ddydd Gwener 8fed o Hydref. Bydd hi'n parhau i'n cefnogi am ddau ddiwrnod yr wythnos am gyfnod. Os gwelwch yn dda rhannwch yr hysbyseb am reolwr gweinyddol

<https://www.eteach.com/job/rheolwr-gweinyddol-lefel-44-1180429?lang=en-GB&frmsrh=Y>

### Diwedd y dydd

Os gwelwch yn dda cofiwch ar ddiwedd y dydd, mai chi fel rhieni/gwarchodwyr sydd yn gyfrifol am eich plentyn/plant. Rydym wedi cael achos lle mae plant yn taflu cerrig neu ffyn tra mae eu rhieni/gwarchodwyr yn sgwrsio. Os gwelwch yn dda a fedrwch sicrhau fod eich plentyn/plant yn aros gyda chi.

Amser mynd adref Derbyn, 1 a 2= 3yh  
(Cyfnod Sylfaen)

Amser mynd adref Blwyddyn 3-6= 3.15yh  
(Cyfnod Allweddol 2)

### Yr estyniad

Y bwriad presennol yw symud blwyddyn 3 i 6 i mewn i'r adeilad newydd ar yr 1af o Dachwedd, 2021. Bydd disgwyl i ni wagu y chwe dosbarth, y stordai a'r coridorau blwyddyn 3 i 6 a phacio'r holl adnoddau i mewn i focsys i gael eu cludo drosodd yn ystod hanner tymor. Dydyn ni ddim yn cael symud unrhyw focs cyn yr 22ain o Hydref.

Mae ysgolion eraill wedi cael cynnig y dodrefn sydd yn y dosbarthiadau ayyb. Byddant yn nôl yr holl ddodrefn ar yr 22ain o Hydref. Os oes gennych angen bwrdd neu gadair ysgol fe fydd rhai ar gael i chi ar yr 22ain. Os ydynt yn weddill mi fyddant yn mynd i'r sgip

Felly mae peth gwaith o'n blaenau ond rydym yn sicr y bydd hi werth yr ymdrech!

Byddwn yn rhannu mwy o fanylion cyn diwedd y tymor pan y byddwn yn gwybod mwy.



Dyddiadur	
7/10/21	Ysgol y Goedwig
8/10/21	Nofio dosbarth Mr Rhydian Jones
13/10/21	Sesiynau pêl-ddoj blwyddyn 5 a 6
14/10/21	Ysgol y goedwig
15/10/21	Ymweliad Olive Tree
19/10/21	Ysgol y Goedwig
20/10/21	Trip blwyddyn 1 a 2 i Loggerheads
21/10/21	Ysgol y Goedwig Dosbarth
22/10/21	Gwisgwch binc hel arian tuag at Cancr y Fron
	Hanner Tymor
1/11/21	Ysgol yn agor
2/11/21	Mr Tudur Phillips Chwaraeon y buarth
3/11/21	Mr Tudur Phillips Chwaraeon y buarth
4/11/21	Ysgol y Goedwig Mr Rhydian Jones
17/11/21	ADHD Apwyntiadau yn yr Ysgol ar gyfer rhieni sydd eisiau siarad am bryderon
18/11/21	Ysgol y Goedwig
30/11/21	Pantomeim Theatr Clwyd

### Covid

Mae Covid dal o'n cwmpas. Erbyn hyn mae achosion ym mlwyddyn 1 i 6. Mae hi'n cymryd amser i TTP ddod mewn cysylltiad felly os ydym yn cael cadarnhad gan riant neu warchodwr am achos positif byddwn yn hysbysu rhieni bod eu plentyn yn gyswllt ac i fynd am PCR. Diolch i chi am eich cefnogaeth.

Rydym yn mynd i gynnal gwasanaeth arbennig dydd Llun 18fed o Hydref yn yr Ysgol ar gyfer diolchgarwch. Mi fydd Mr Huw Powell Davies yn mynychu'r Ysgol er mwyn cynnal gwasanaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac yna Cyfnod Allweddol 2.

Byddem wrth ein boddau yn eich gwahodd i wylïo ond yn anffodus ar hyn o bryd rhwng cyfyngiadau COVID a'r estyniad mae'n amhosib.



### Codi Arian ar gyfer Cancr y Fron

Gwisgwch Binc a rhowch gyfraniad ar school gateway



### Noson Rieni

Diolch i bawb â gefnogodd ein nosweithiau rhieni. Os oes ganddoch unrhyw bryder cysylltwch gyda ni.



## Information October 2021



### Swimming

Swimming will start on Friday 8<sup>th</sup> of October for Mr Rhydian Jones's year 5 and 6 class.

### Parking

We have had a few complaints regarding parents who are parking on Upper Bryn Coch Lane who are blocking gateways. Could you please ensure you do not park in front of anybody's drive! Diolch yn fawr.



### *Miss Ann Joseph says*



Many thanks to Mrs Delyth Barker who is due to finish her role as administrator on Friday 8<sup>th</sup> October. We thank her for her hard work over the years and we are very grateful that she will be continuing for 2 days per week until further notice. Please share this advert for an administration manager

<https://www.eteach.com/job/rheolwr-gweinyddol-lefel-44-1180429?lang=en-GB&frmsrh=Y>

### End of the day Supervision

Please can parents/carers remember that their child/children is their responsibility at the end of the school day. We have had incidents with children playing and throwing stones and sticks whilst their parent/carer is chatting.

Please keep your child/Children with you

Foundation Phase -Derbyn 1 a 2-  
go home at 3pm  
Key stage 2 Years 3 to 6  
Go home at 3.15pm

### The extension

The current plan is for years 3 to 6 to move into the new classrooms on Monday 1<sup>st</sup> November, 2021. We are currently expected to empty the 6 classrooms, storerooms into boxes etc. by the 22<sup>nd</sup> of October. The boxes will then be carried over during half term. Therefore, there is a lot of work ahead of us but I am sure it will be worth it!

We have shared pictures of our furniture with other schools who will be picking up the tables/chairs/cupboards on the 22<sup>nd</sup> October. Some chairs, tables or cupboards may be left and you as parents/carers are welcome to take these on the 22<sup>nd</sup> of October. More details to follow before the end of term.



Dyddiadur	
7/10/21	Forest school
8/10/21	Nofio dosbarth Mr Rhydian Jones
13/10/21	Dodgeball years 5 a 6
14/10/21	Forest school
15/10/21	Olive Tree visiting to speak to Years 5 and 6
19/10/21	Forest school
20/10/21	Loggerheads Trip Year 1 and 2
21/10/21	Forest school
22/10/21	Wear pink to raise funds for Breast cancer awareness
	Half term
1/11/21	School opens Years 3 to 6 move to new building
2/11/21	Mr Tudur Phillips Playground games
3/11/21	Mr Tudur Phillips Playground Games
4/11/21	Forest school
17/11/21	ADHD Appointment in school for parents to have a discussion regarding any concerns with Mr Alan Roberts
18/11/21	Forest school
30/11/21	Pantomime Theatr Clwyd Beauty and the Beast

### Covid

Covid is still around us. By now we have had cases from years 1 to years 6. TTP take a few days to get in touch. Therefore, when we have a confirmed case we send the Warn and Inform letters out immediately to inform parents to take their child for a PCR test. Thank you all for your support.

We are going to hold a special Harvest Festival on 18<sup>th</sup> of October in school. Mr Huw Powell Davies will hold an assembly with foundation Phase pupils and then Key stage 2 pupils.

We would love to invite you all however Covid restrictions and the extension it is currently impossible. We do apologise.



Raising funds for Breast cancer.  
Please wear pink and send a donation to school Gateway



### Parent's Evening

Thank you to all who supported our parents evening. If you have any concerns regarding your child please make an appointment to discuss.